

Pam dylai llywodraethau flaenoriaethu'r gweithlu therapi galwedigaethol

Pwyntiau allweddol yn y nodyn briffio hwn

- Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu pobl i oresgyn heriau wrth gyflawni tasgau neu weithgareddau dyddiol.
- Therapi galwedigaethol yw'r ateb i lawer o anghenion iechyd a gofal y Deyrnas Unedig. Gall helpu i gael rhestrau aros i lawr a lliniaru pwysau ar wasanaethau argyfwng trwy:
 - wneud y gwasanaethau yn fwy personol a chanolbwyntio ar atal.
 - roi cymorth i bobl gael eu rhyddhau o wasanaethau aciwt.
 - atal y cyflyrau iechyd rhag mynd yn waeth.
- Gall hyn gael ei gyflawni trwy ymwreiddio gwasanaethau therapi galwedigaethol mewn lleoliadau cymunedol, fel ysgolion, timau adsefydlu cymunedol a meddygfeydd meddygon teulu.
- Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu pobl sydd ag anafiadau, anableddau, salwch a chyflyrau tymor hir i barhau yn eu gwaith am fwy o amser, a dychwelyd i'w gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb.

Beth mae therapyddion galwedigaethol yn ei wneud?

Mae therapydd galwedigaethol yn helpu pobl o bob oed i oresgyn heriau wrth gyflawni tasgau neu weithgareddau dyddiol – yr hyn yr ydym yn ei alw yn alwedigaethau. Galwedigaeth yw gweithgaredd y mae arnom ei angen neu eisiau ei wneud i fyw ac i ofalu am ein hiechyd corfforol a meddyliol, a'n llesiant emosiynol ac ysbrydol.

Mae galwedigaethau yn hanfodol i fyw. Maen nhw'n rhoi ystyr, diben a strwythur i'n bywydau. Maen nhw'n helpu i siapia pwy ydyn ni, ein cysylltu ag eraill a helpu i greu ein hunaniaeth a'n hymdeimlad o berthyn.

Mae therapyddion galwedigaethol yn edrych ar y berthynas rhwng eich galwedigaethau, yr heriau yr ydych yn eu hwynebu a'ch amgylchedd. Ac yn gweithio gyda chi i'ch helpu i gyflawni'r camau y mae arnoch eu hangen i wella eich bywyd bob dydd. Gall hyn roi ymdeimlad newydd o ddiben i bobl. Gall hefyd gynnig cyfleoedd newydd a newid y ffordd y mae pobl yn teimlo am y dyfodol.

Y lle rydym ni heddiw

Rydym wedi'n taenu'n rhy denau – gyda thua chwech o therapyddion galwedigaethol i 10,000 o bobl yn y Deyrnas Unedig, wedi eu lleoli'n bennaf mewn gwasanaethau cleifion mewnol. A dim ond 3% o feddygfeydd meddygon teulu sydd â therapyddion galwedigaethol ynddyn nhw.

Ni allwn barhau fel hyn. Mae'r proffesiwn mewn argyfwng, gyda chyfraddau uchel o swyddi gwag. Er enghraifft, mae rhannau o dde ddwyrain Lloegr a Llundain yn cofnodi hyd at 40% o swyddi yn wag a hynny'n uwch mewn rhai gwasanaethau. Mae llawer o resymau am hyn, gan gynnwys therapyddion

galwedigaethol sydd ddim eisiau gweithio yn y GIG am fwy na dwy flynedd.

Ym mis Gorffennaf 2024, roedd 8,957 o oedolion a 19,070 o blant a phobl ifanc yn aros am gael gweld therapydd galwedigaethol yn y gymuned.

Ein gweledigaeth i greu newid

Mae ein [Strategaeth Gweithlu](#) yn amlinellu pam bod pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar yn helpu pobl i barhau yn eu gwaith, cadw at eu patrymau dyddiol a chyflawni'r galwedigaethau sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd y dull hwn yn helpu pobl sy'n byw ag anghenion iechyd a gofal niferus i reoli eu symptomau a lleihau'r gofyn am wasanaethau ysbyty ac arbenigol a lleihau dibyniaeth ar y gwasanaethau gofal.

Byddai gwireddu ein gweledigaeth yn lleihau'r pwysau ar y GIG, meddygon teulu a gwasanaethau iechyd cyhoeddus eraill ac yn helpu i atal pobl rhag cyrraedd sefyllfa argyfyngus.

Darllenwch ragor yn ein **Strategaeth Gweithlu**: rcot.co.uk/workforce-strategy

Argymhellion ar gyfer llywodraethau'r Deyrnas Unedig

Gweithiwch gyda ni i gyflawni gweithlu ehangach o therapyddion galwedigaethol sydd wedi eu gosod yn nes at gymunedau. Dyma'r lle y gallan nhw gael yr effaith mwyaf wrth wella iechyd ac ansawdd bywyd pobl.

Gyda'n gilydd gadewch i ni:

1. **Sicrhau bod gan bob ysgol fynediad at therapydd galwedigaethol** i helpu plant a phobl ifanc ag anawsterau corfforol, dysgu ac iechyd meddwl i gyflawni eu potensial ac atal eu hanghenion rhag mynd yn waeth.
2. **Gosod therapyddion galwedigaethol mewn timau adsefydlu cymunedol aml-ddisgyblaeth**, gan leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd argyfwng a'i gwneud yn haws i bobl reoli cyflyrau tymor hir eu hunain.
3. **Ehangu'r nifer o therapyddion galwedigaethol mewn meddygfeydd meddygon teulu**, gan helpu pobl i gael cymorth ynghynt, heb orfod cael eu derbyn i ysbyty, a lleihau'r posibilrwydd y bydd eu cyflwr yn mynd yn waeth. Dylai pobl gael mynediad at asesiadau, cyngor ac adsefydlu gan therapyddion galwedigaethol trwy eu meddygon teulu.

Cyswllt

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol ydym ni. Rydym wedi hyrwyddo'r proffesiwn a'r bobl tu ôl iddi ers dros 90 mlynedd, a heddiw, rydym yn ffynnu gyda dros 36,000 o aelodau. Yn y gorffennol a'r presennol rydym yma i helpu i gyflawni newidiadau sy'n gallu newid bywydau i'n haelodau, i'r bobl y maen nhw'n eu cefnogi ac i gymdeithas.

I gael rhagor o wybodaeth neu i drefnu cyfarfod cysylltwch â'r tîm Ymarfer a Gweithlu yn practice.workforce@rcot.co.uk